**Bwrdd Trafnidiaeth Cymru**

**Cofnodion cyfarfod 16 Hydref 2025**

**Cynhaliwyd yn swyddfeydd Cyngor Sir Caerfyrddin ac ar Teams**

| | |
|---|---|
| **Aelodau:** | |
| Vernon Everitt | Aelod Anweithredol a Chadeirydd |
| Alun Bowen | Aelod anweithredol |
| Louise Cheeseman | Aelod anweithredol |
| Heather Clash | Prif Swyddog Cyllid, Llywodraethu a Gwasanaethau Corfforaethol |
| Rhian Langham | Aelod anweithredol |
| Vinay Parmar | Aelod anweithredol |
| James Price | Prif Swyddog Gweithredol |
| Peter Strachan | Aelod anweithredol |
| **Hefyd yn bresennol:** | Aelod anweithredol |
| Sam Hadley | Cyfarwyddwr Polisi |
| Peter McDonald | Arsylwr (Llywodraeth Cymru) |
| Jeremy Morgan | Ysgrifennydd y Bwrdd a Phennaeth Llywodraethu Corfforaethol |
| Alexia Course | Prif Swyddog Masnachol (Eitem 4) |
| Marie Daly | Prif Swyddog Gweithrediadau (Eitem 4) |
| Alan McCarthy | Arsylwr undebau llafur (Eitemau 1-3) |
| Darren Price | Arweinydd, Cyngor Sir Caerfyrddin (Eitem 8) |
| Daniel John | Pennaeth Seilwaith Amgylcheddol, Cyngor Sir Caerfyrddin (Eitem 8) |
| Simon Charles | Rheolwr Strategol Gwasanaethau Trafnidiaeth Integredig, Cyngor Sir Caerfyrddin (Eitem 8) |

## Rhan A – Eitemau sefydlog

### 1a. Gair o groeso gan y Cadeirydd ac ymddiheuriadau am absenoldeb

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd.

Derbyniwyd ymddiheuriadau gan Ian Lucas ac Andrew Morgan.

### 1b. Hysbysiad ynghylch Cworwm

Gan fod cworwm, croesawodd y Cadeirydd bawb i'r cyfarfod a datganodd fod y cyfarfod yn agored.

### 1c. Datgan Buddiant

Dim.

### 1d. Cofnodion a chamau gweithredu o'r cyfarfod blaenorol

Derbyniwyd cofnodion cyfarfod Bwrdd TrC a gynhaliwyd ar 18 Medi 2025 fel cofnod gwir a chywir. Nodwyd y log camau gweithredu.

**1e. Sylw i Ddiogelwch a Rhwydwaith T**
Rhannodd Aelod o'r Bwrdd brofiad diweddar iawn o gael ei adael ar wasanaeth heb fod yn un TrC am fwy na dwy awr i'r gogledd o Birmingham. Roedd y trên yn llawn teithwyr, ac ni chynigiwyd dŵr o gwbl. Cytunodd y Bwrdd fod angen delio â'r mater hwn ar draws y diwydiant a bod angen edrych yn ofalus ar ganfyddiadau ac argymhellion adroddiad Transport Focus ar 'Wella profiad teithwyr pan fydd trenau'n methu symud' drwy lens TrC.

**2. Perfformiad diogelwch**
Nododd y Bwrdd gynnwys yr adroddiad ar berfformiad diogelwch. Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am y canlynol:

- Cynnydd gydag adolygiad allanol Pasio Signalau Stop (SPaD). Croesawodd y Bwrdd y newyddion fod gostyngiad yn nifer yr achosion o'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol.
- Ymgyrch 'Defnyddiwch eich pen cyn eich traed' ynghylch ymddygiad ar drenau.
- Trafodaeth yng nghyfarfod diweddar yr is-bwyllgor Profiad a Thwf Cwsmeriaid ar drais yn erbyn menywod a merched. Trafododd y Bwrdd yr angen am arloesi a mynd ati'n barhaus i ddatblygu dull strategol a chynllun gweithredu. Rhybuddiodd y Bwrdd yn erbyn codi llais heb sail a'r angen i hyrwyddo'r rhwydweithiau rheilffyrdd a bysiau fel mannau saff a diogel.
- Risgiau sy'n gysylltiedig â chroesfannau rheilffordd. Gofynnodd y Bwrdd am ganolbwyntio ar safleoedd heb eu diogelu lle gallai gwrthdrawiad ddigwydd ar y rhwydwaith, ac adrodd i'r Bwrdd Rheilffyrdd [**Lorenzo Visentin i weithredu**].
- Bydd angen profi metrigau diogelwch bysiau drwy set o rifau y gellir eu treialu drwy wasanaethau presennol a'u cyflwyno i fasnachfreinio, gan ystyried data a ddefnyddir gan weithredwyr eraill i wella atebolrwydd. Anogodd y Bwrdd y weithrediaeth i annog cydweithwyr sy'n meddu ar wybodaeth am ddata i ddod o hyd i'r atebion hefyd a'u profi gyda chydweithwyr a theithwyr.
- Mae problemau'n parhau mewn cysylltiad â Pullman ac offer a chodi.

**3. Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol**
Cafodd y Bwrdd drosolwg o Adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol:

- Mae gweithgareddau diwygio rheilffyrdd yn parhau, gyda'r angen i gyflymu'r cynnydd ymhellach i sicrhau bod TrC a Llywodraeth Cymru yn cael y budd mwyaf posibl. Trafododd y Bwrdd yr angen i ddod ynghyd â swyddogaethau datganoledig eraill a mynd â phroblemau at y rheini sy'n drafftio'r ddeddfwriaeth, a datblygu strategaeth ar gyfer ymgysylltu'n well â Network Rail [**James Price i weithredu**].
- Gweithgareddau a gynhaliwyd i lywio drwy dymor heriol yr hydref.
- Perfformiad gweithredol y rheilffyrdd. Trafododd y Bwrdd y sylw diweddar yn y cyfryngau ynghylch canslo trenau yng Nghymru a chafodd wybod mai nifer fach o ddigwyddiadau mawr eu heffaith oedd wedi arwain at y tarfu mwyaf diweddar. Nododd y Bwrdd nad oedd unrhyw drenau wedi cael eu canslo yn ystod y ddwy flynedd a hanner ddiwethaf oherwydd prinder criwiau trenau ond ei fod eisiau i TrC fod mewn sefyllfa i gyfleu'n glir y rhesymau dros ganslo [**Lewis Brencher i weithredu**] ac i ddysgu gwersi yn barod ar gyfer masnachfreinio bysiau [**Lee Robinson i weithredu**].
- Mae incwm rheilffyrdd yn parhau i amrywio o fis i fis. Mae Llywodraeth Cymru yn cael y wybodaeth ddiweddaraf ac er bod y cynnydd o'i gymharu â gweddill y diwydiant yn dda, mae cyflawni'r targed ymestyn yn dipyn o her.

- Mae bysiau'n parhau i gael eu prif ffrydio'n fwy bob wythnos, gyda chynnydd yn cael ei adrodd ar y model gweithredu, elw a cholled, a phenderfyniadau polisi. [redacted].
- Mae Rheolwr Gyfarwyddwr dros dro wedi cael ei benodi i Pullman, gydag amrywiol reolaethau cost ar waith, ond mae incwm yn dal yn is na'r targed, a bydd cynllun ariannol yn cael ei ddatblygu. Cynhaliwyd sesiwn i'r holl staff yn ddiweddar gydag ymgysylltiad da.
- Nododd y Bwrdd yr adroddiad ariannol gan gynnwys yr alldro a'r sefyllfa gyllido ar gyfer 2025/26.

**4. Sesiwn strategol – cerbydau.**

Trafododd y Bwrdd strategaeth cerbydau TrC gyda phwyslais ar gadernid y fflyd yng nghyd-destun amserlen sy'n newid i alluogi twf a lleihau cymhorthdal y llywodraeth. Nododd y Bwrdd fod yr amserlen a'r gofynion cysylltiedig o ran fflyd dros y tair blynedd nesaf yn ddigon i ddarparu'r gwasanaeth a hysbysebwyd, ond bod elfen o risg wrth gyflwyno fflyd newydd. Er bod angen gwydnwch a chynlluniau wrth gefn, mae angen sicrhau cydbwysedd, a bydd unrhyw gynllun wrth gefn yn dod ar gost, sy'n annhebygol o dalu amdano'i hun.

Cymeradwyodd y Bwrdd y canlynol yn amodol ar ddatrys y proffil cyllido yn fewnol a gyda Llywodraeth Cymru:

- Bydd 20 o Unedau Class 153 yn cael eu rhoi ar waith (17 ar brydles drwy Porterbrook a thair sy'n eiddo i TrC) cyn gynted â phosibl er mwyn lliniaru risgiau rhwng heddiw a mis Mai 2027.
- [redacted]
- Bwrw ymlaen â'r holl welliannau dibynadwyedd sydd eu hangen ar gyfer fflyd MKIV, gan gynnwys:
  - Bwrw ymlaen â'r gofynion staffio/technegol/sifftiau nos ar gyfer gwydnwch/dibynadwyedd o ddydd i ddydd [**Marie Daly i weithredu**].
  - [redacted].
  - Rhoi gwybod i gwsmeriaid ymlaen llaw pan fydd y gwasanaeth wedi cael ei ganslo neu pan fydd rhywbeth yn effeithio arno [**Alexia Course i weithredu**].
- [redacted]. Nododd y Bwrdd y problemau posibl o ran capasiti ar ddechrau'r 2030au a materion penodol yn ymwneud â gofynion ar gyfer camau olaf Crossrail. Cytunwyd i ddrafftio llythyr i awdurdodau lleol ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd yn nodi'r manteision rhanbarthol ac i drafod strategaeth cerbydau.
- Proffil cyllido tymor canolig ar gyfer y strategaeth cerbydau gyfan [**Alexia Course i weithredu**].

[redacted]

[redacted]

[redacted]

[redacted]

Wrth i TrC symud i redeg system trafnidiaeth gyhoeddus aml-ddull, roedd y Bwrdd yn cydnabod bod angen strategaeth gyllido tymor canolig, sy'n gofyn am drafodaeth gyda Llywodraeth Cymru ar yr effaith ariannol a'r cyfaddawdu posibl. Pwysleisiodd y Bwrdd, os nad yw'r strategaeth cerbydau'n fforddiadwy, fod angen deall y canlyniadau a'r mesurau lliniaru posibl.

**5. Bysiau**

Nododd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am y cynnydd yn erbyn y cam gweithredu o'r drafodaeth ar fasnachfreinio bysiau ym mis Medi.

**6. Troseddau Economaidd a Thryloywder**

Ymunodd rhai o gyfarwyddwyr statudol is-gwmnïau TrC ac aelodau o'r Tîm Arwain Gweithredol â'r Bwrdd i gael hyfforddiant a chyflwyniad ar Ddeddf Troseddu Economaidd a Thryloywder Corfforaethol 2023, gyda phwyslais penodol ar newidiadau i sefydlu atebolrwydd troseddol corfforaethol a'r drosedd newydd "methiant i atal twyll". Nododd a thrafododd y Bwrdd gynnwys y cyflwyniad a phwysleisiodd ei ymrwymiad i atal twyll ar draws TrC drwy'r Strategaeth Atal Twyll a'r ymarferion parhaus i asesu'r risg o dwyll.

**7. Llywodraethu**

7a. Cafodd y Bwrdd y wybodaeth ddiweddaraf am y Bwrdd Llywio diweddar a oedd yn cynnwys trafodaethau ar y gyllideb, adroddiad y Prif Swyddog Gweithredol ar ddiwygio'r rheilffyrdd, cyllid a Llinellau Craidd y Cymoedd.

7b. Roedd y Bwrdd Rheilffyrdd diweddar yn canolbwyntio ar berfformiad; dod â threnau Class 398 i'r gwasanaeth; diweddariad masnachol; cyllid; dod â threnau 197 i'r gwasanaeth; a gwybodaeth fanwl am y sefyllfa o ran bysiau. Trafododd y Bwrdd y potensial ar gyfer newid enw Rheilffyrdd TrC Cyf [**Jeremy Morgan i weithredu**].

7c. Roedd cyfarfod diweddar y Pwyllgor Taliadau wedi adolygu cylch gorchwyl y pwyllgor, a'r cyd-destun gwobrwyo.

7d. Roedd y Pwyllgor Pobl yn canolbwyntio ar gynllunio olyniaeth a hyfforddiant gorfodol.

7e. Roedd y Pwyllgor Profiad a Thwf Cwsmeriaid diweddar wedi ystyried data a gwybodaeth am gwsmeriaid, diweddariad ar strategaeth farchnata, trais yn erbyn menywod a merched a phrofiad cwsmeriaid o fysiau.

**8. Sesiwn y Cyd-bwyllgorau Corfforedig**

Ymunodd Darren Price, Simon Charles a Daniel John (Cyngor Sir Caerfyrddin i gyd) â'r cyfarfod.

Croesawodd y Bwrdd yr Arweinydd a swyddogion o Gyngor Sir Caerfyrddin, a amlinellodd rai o’r materion yn ymwneud â thrafnidiaeth gyhoeddus sy’n gyffredin i’r ardal leol. Roedd y drafodaeth yn ymdrin â nifer o ardaloedd lleol a rhanbarthol gan gynnwys y rhaniad trefol / gwledig lle mae rhai rhannau o’r gymuned yn teimlo eu bod yn cael eu gadael ar ôl o ran darpariaeth, a’r her ar bob lefel o lywodraeth fod pobl yn dymuno byw yng nghefn gwlad, sy'n golygu mai teithio mewn car fydd y flaenoriaeth.

Cafodd y Bwrdd wybod fod y trafodaethau hyd yma wedi canolbwyntio’n bennaf ar reilffyrdd, Metro De-orllewin Cymru a’r anghenion penodol o ran gwella cysylltiadau rhwng y dwyrain a’r gorllewin. Cynhaliwyd trafodaethau hefyd ar fanteision a diffygion teithio sy’n ymateb i’r galw, yr angen am fodelu i gofnodi budd gwerth cymdeithasol ac economaidd buddsoddiadau trafnidiaeth, a’r angen am gyllid tymor hir sy’n allweddol i’r cyhoedd gael hyder a sicrwydd o ran gwasanaethau. Cytunwyd i gwrdd â Chyngor Sir Caerfyrddin i edrych ar yr hyn y gellir ei wneud i wella gwasanaethau bysiau wrth symud tuag at fasnachfreinio bysiau yn 2027.

Diolchodd y Cadeirydd i bawb a oedd yn bresennol am eu cyfraniadau, a daeth y cyfarfod i ben.